EXODUS
& FREEDOM

Session 3: Exodus *& Rhyddid*

Arweiniad Grwp Bychan

Cynhesu (cysylltu â'r thema)

A ydych yn medru meddwl am ffyrdd y mae stori Exodus wedi ysbrydoli'n diwylliant? Ee. Ffilmiau (The Prince of Egypt), Caneuon ('Bread of Heaven'), mudiadau cyfiawnder cymdeithasol(gwrth-gaethwasiaeth / cipio pobl), Moses baskets!

Pryd a lle ydych chi'n teimlo'n fwyaf rhydd? Beth sydd yn gwneud i ni deimlo'n gaeth?

Neges [Fideo cryno]

Fideo 5-7 munud gan Jos Edwards yn crynhoi'r thema fawr o'r Beibl a sut y mae'n berthnasol i'n bywydau.

Darlleniadau beiblaidd (i'w cyd-ddarllen)

Exodus 14.13–14; 15.1–2,11; 19.4–6; Ioan 8.31–32

Amser trafod

Sut mae diwylliant y gorllewin yn diffinio rhyddid? Sut mae stori Exodus yn ein helpu i ail-feddwl am ryddid go iawn?

Beth sy'n teimlo fel dy"Aifft" di neu yn her Pharo ar hyn o bryd?

Sut wnaeth Moses a Miriam ddathlu gwaredigaeth Exodus (Exodus 15)? Sut fedrwn ni ddathlu a chadarnhau ein rhyddid trwy Iesu?

Sut wnaeth Iesu gyflawni stori Exodus yn y ffordd eithaf (Ioan 8.31–32)?

Ym mha ffyrdd ydym ni yn profi mwy o ryddid heddiw pan rydym yn dewis byw yn ffordd Duw (Exodus 19.4–6)? Sut ydych wedi profi hyn yn bersonol?

Sut mae stori Exodus yn medru ein hysbrydoli i weithio dros gyfiawnder heddiw?

Ar y cyfan, sut mae stori Exodus yn ein helpu i ganfod gwir ryddid yn ein bywydau?

Amser ymateb (adlewyrchu a gweddio)]

Gwrandewch ar y gân "Dim mwy yn gaethion / No longer slaves'"(Bethel Music). Diolchwch i Dduw am y rhyddid sydd gennym yn Iesu a gweddiwch am ei help i ddod â rhyddid i eraill.

Cynnwys dyddi

Parhewch â'r daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol o gynnwys ac Ysgrythur yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Story that makes sense of life* (Hodder).